

CANLLAWIAU CYMORTH DIGIDOL

ZOOM

Dysgwch sut i ymuno â chyfarfod Zoom, a'r ymarferoldeb sylfaenol



BETH YW ZOOM:

- Mae Zoom yn becyn fideo-gynadledda dros y we gyda fersiwn bwrdd gwaith ac ap symudol sy'n caniatáu i ddefnyddwyr gwrdd ar-lein gyda neu heb fideo.

- **NID OES** angen i chi greu cyfrif Zoom i fynychu cyfarfod Zoom ond bydd rhaid i chi greu cyfrif os ydych yn bwriadu cynnal cyfarfod (gallwch ymuno am ddim).

SUT I YMUNO Â CHYFARFOD:

- Ewch i'ch porwr rhyngwrd a theipio Zoom.us yn y bar chwilio, pwyswch **ENTER** ar eich bysellfwrdd neu **GO** os ydych yn defnyddio ffôn neu dabled.

- Cliciwch **JOIN A MEETING** ar frig y dudalen ar yr ochr chwith.


- Byddwch nawr yn gallu teipio Rhif Adnabod y Cyfarfod a ddarparwyd gan drefnydd y cyfarfod. Fe ddylai gynnwys 10 rhif.

Join a Meeting

Meeting ID or Personal Link Name

Join

- Nesaf, cliciwch **JOIN**. Nawr bydd sgrin o'ch blaen sy'n cynnig dewisiadau o ran sut i ymuno â Zoom – cliciwch ar **JOIN FROM YOUR BROWSER**.



- Nawr, bydd rhaid i chi deipio eich enw – gallwch ddefnyddio eich enw llawn, neu enw yr hoffech gael eich galw yn ystod y cyfarfod Zoom.
- Nesaf, mae'n bosib y bydd rhaid i chi gwblhau'r blwch 'I'm not a robot' – ticiwch y blwch a dilynwch y cyfarwyddiadau i gadarnhau.

- Cliciwch 

- Nawr, teipiwch **MEETING PASSCODE** a ddarparwyd gan drefnydd y cyfarfod


- Cliciwch 

- Yna byddwch yn mynd i'r cyfarfod Zoom a bydd y trefnydd yn caniatáu mynediad i'r cyfarfod.


GOSODIADAU FIDEO:

- Pan fyddwch yn ymuno â'r cyfarfod bydd eich fideo wedi'i ddiffodd - sy'n golygu na fydd aelodau eraill o'r cyfarfod yn gallu eich gweld.

- Os hoffech chi ddefnyddio'r swyddogaeth fideo, yr oll sy'n rhaid i chi ei wneud yw clicio'r botwm **Start Video** ar waelod ochr chwith y sgrin.




- Os ydych eisiau diffodd y fideo, cliciwch y botwm eto.



GOSODIADAU MEICROFFON:

- Pan fyddwch yn ymuno â'r cyfarfod efallai y bydd eich meicroffon wedi'i ddiffodd sy'n golygu na fydd aelodau eraill o'r cyfarfod yn gallu eich clywed.

- I roi eich meicroffon ymlaen, cliciwch ar yr eicon **Unmute** ar waelod ochr chwith y sgrin.




- Os ydych yn dymuno diffodd eich meicroffon – cliciwch ar y botwm eto.




DEWISIADAU O RAN EDRYCHIAD Y SGRIN:

- Eich dewisiadau o ran edrychiad y sgrin yn y cyfarfod yw **Gallery** a **Speaker**


- **Gallery** bydd hyn yn caniatáu i chi weld pawb sy'n bresennol yn y cyfarfod.



- **Speaker** bydd hyn yn caniatáu i chi weld y prif siaradwr sef trefnydd y cyfarfod fel arfer.




- I newid rhwng y ddau ddewis yma, cliciwch ar y botymau ar frig ochr dde eich sgrin.



DEFNYDDIO'R SWYDDOGAETH SGWRSIO:

- Mae'r swyddogaeth Sgwrsio ar Zoom yn caniatáu i chi anfon neges at bawb neu un unigolyn yn benodol o fewn y cyfarfod Zoom.

- Cliciwch ar yr eicon **Chat** – bydd ffenestr newydd yn agor ar ochr dde'r sgrin.



- Ysgrifennwch neges yn y blwch sgwrsio a phwyswch **ENTER** ar eich bysellfwrdd i anfon y neges at bawb.

- Os ydych eisiau anfon neges at unigolyn penodol, cliciwch ar y saeth i lawr – **To: Everyone** a dewiswch enw'r unigolyn penodol o'r rhestr.

GADAEL CYFARFOD ZOOM:

- Os ydych am adael cyfarfod Zoom, cliciwch ar y botwm **LEAVE MEETING**.

